# Newidiadau yn Ne Affrica, 1948-1994



## a) Nodweddion y drefn apartheid

**Cwestiwn allweddol:** Beth oedd prif nodweddion y drefn apartheid a beth oedd effaith y drefn ar bobl De Affrica?

**Pwyntiau canolog:** Y rhesymau dros sefydlu'r drefn apartheid; y deddfau apartheid; mamwledydd hunanlywodraethol a'r Bantustans; effaith apartheid ar fywyd diwylliannol De Affrica; effaith y drefn ar fywyd a gwaith yn Ne Affrica.

## b) Y gwrthwynebiad yn Ne Affrica

**Cwestiwn allweddol:** Beth oedd prif nodweddion y gwrthwynebiad i apartheid yn Ne Affrica?

**Pwyntiau canolog:** Y prif bersonoliaethau, gan gyfeirio'n arbennig at Steve Biko a Nelson Mandela; protestiadau treisgar – Sharpeville 1960, Soweto 1976; rhaniadau ymhlith gwrthwynebwyr apartheid; ymgyrchoedd yr ANC a'r PAC; y gwrthwynebiad i apartheid ymhlith pobl wyn De Affrica a grwpiau eraill.

## c) Gwrthwynebiad rhyngwladol i apartheid

**Cwestiwn allweddol:** Beth oedd prif nodweddion y drafodaeth ryngwladol a'r gwrthwynebiad i apartheid gan bobl y tu allan i Dde Affrica?

**Pwyntiau canolog:** Y gwrthwynebiad gan wledydd y Gymanwlad Brydeinig; ynysu De Affrica; ymateb a rôl y Cenhedloedd Unedig; y drafodaeth ryngwladol; sancsiynau economaidd, boicot chwaraeon; nodweddion eraill gwrthwynebiad allanol

## ch) Diwedd apartheid

**Cwestiwn allweddol:** Sut a pham daeth apartheid i ben?

**Pwyntiau canolog:** P. W. Botha a'r 'realaeth newydd'; newid o dan F. W. de Klerk; rhyddhau Mandela; dod ag apartheid i ben, o ran y gyfraith ac yn y gymdeithas; etholiadau democrataidd, rhydd; dychwelyd at ddemocratiaeth gyfansoddiadol; ailderbyn De Affrica fel rhan o'r Gymuned Ryngwladol.

Cwestiwn allweddol

Beth oedd prif nodweddion y drefn apartheid a beth oedd effaith y drefn ar bobl De Affrica?

## De Affrica a’r drefn apartheid – cyflwyniad




Er ein bod yn astudio hanes De Affrica yn y cyfnod rhwng 1948 ac 1994, mae’n bwysig gwybod rhywbeth am gefndir y wlad er mwyn deall yr hanes yn iawn.

Hyd nes yr ail ganrif ar bymtheg (17g.), roedd pobl ddu yn byw yn yr ardal sy’n cael ei galw erbyn hyn yn Weriniaeth De Affrica. Roedd y rhain yn byw mewn llwythau gwahanol, ac yn byw bywyd syml a chyntefig iawn. Cyrhaeddodd pobl wyn yr ardal yn 1652 pan laniodd llong o’r Iseldiroedd ar Benrhyn Gobaith Da.

Roedd y bobl wyn hyn yn dod o’r Iseldiroedd, yr Almaen a Sweden ac yn eu galw’u hunain yn Boers (ffermwyr) neu’n Afrikaners (Affricanwyr). Yn raddol, glaniodd llawer mwy o bobl wyn yn yr ardal o wledydd gwahanol, gan gynnwys Prydain. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg (19g.), roedd gwrthdaro wedi dechrau rhwng yr Afrikaners a Phrydain am bwy ddylai reoli. Yn 1899, dechreuodd rhyfel rhwng disgynyddion y bobl o’r Iseldiroedd a Phrydain, sef Ail Ryfel y Boer.

Er i Brydain ennill y rhyfel yn 1902, roedd wedi addo y byddai'n rhoi hunanlywodraeth i bobl yr ardal. Yn 1910, cafodd gwlad newydd oedd yn rhan o Ymerodraeth Prydain ei chreu. Enw'r wlad newydd oedd (Undeb) De Affrica. Cafodd y wlad ei llywodraeth ei hun, ond ac eithrio canran isel o ddynion lliw a oedd yn gymwys, dynion gwyn dros 21 oed oedd yn cael pleidleisio.

Afrikaners oedd mwyafrif y bobl wyn oedd yn byw yn Ne Affrica. Doedd yr Afrikaners ddim yn credu bod pobl ddu a phobl wyn yn gyfartal. Doedden nhw ddim 'chwaith yn credu y dylen nhw fod yn byw gyda'i gilydd.


Aeth llywodraeth wyn De Affrica ati'n syth i basio deddfau oedd yn helpu pobl wyn, gan atal pobl ddu rhag cael pŵer a chyfoeth. Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif (20g.) roedd tua 6 miliwn o bobl yn byw yn Ne Affrica. O'r rhain, roedd 4 miliwn yn bobl ddu. Yn 1913, pasiodd y llywodraeth ddeddf o'r enw Deddf Tir Brodorion De Affrica. O dan y ddeddf hon roedd:

- y bobl ddu (4 miliwn) yn cael 7.3% o'r tir yn Ne Affrica
- y bobl wyn a phobl liw (yn llai na 2 filiwn) yn cael 92.7% o'r tir.




Roedd yn rhaid i bobl ddu fyw ar eu siâr nhw o'r tir. Doedden nhw ddim yn cael bod yn berchen ar dir arall y tu allan i'r ardaloedd oedd ar gyfer pobl ddu.

## Cyfnod llywodraeth Hertzog (1924–1939)



O dan arweiniad Y Prif Weinidog J. B. M. Hertzog, aeth y llywodraeth ati i basio deddfau pellach i roi mwy o rym i'r bobl wyn.

- Yn 1925 daeth Afrikaans, sef iaith yr Afrikaners, yn iaith swyddogol De Affrica.
- Yn 1926 pasiodd llywodraeth Hertzog ddeddf oedd yn atal pobl ddu ac Indiaid rhag cael gwaith medrus oedd yn talu'n dda.
- Yn 1927 pasiodd y llywodraeth ddeddf oedd yn atal perthynas rywiol rhwng pobl ddu a gwyn.

Yn y cyfnod hwn, felly, roedd y llywodraeth wyn yn lleihau hawliau pobl ddu, ac yn pasio deddfau i roi mwy o bŵer i bobl wyn.

### Ffynhonnell A: Poblogaeth

Roedd pedwar prif grŵp o bobl yn byw yn Ne Affrica. Dyma ffigurau poblogaeth 1946:

| | |
|---|---|
| • Du | 7 805 515 |
| • Gwyn | 2 372 690 |
| • Cymysg | 928 484 |
| • Asiaid | 285 260 |

(*South Africa*, J. F. Aylett, 1996)

### Ffynhonnell C: Tir

Dim ond pan fydd yn barod i fynd i mewn a gwasanaethu'r dyn gwyn y dylai'r brodor gael yr hawl i fynd i mewn i ardaloedd trefol. Dylai adael yn syth ar ôl gorffen gwasanaethu.

(Adroddiad Comisiwn Llywodraeth De Affrica, 1922)

### Ffynhonnell Ch: Hil

Mae'n gwbl anfaddeuol cymysgu gwaed du a gwyn.

(Jan Smuts, Prif Weinidog De Affrica, 1919–24)

### Ffynhonnell B: Iaith

Roedd yr Afrikaners yn defnyddio eu hiaith fel propaganda. Er enghraifft, mae'r gair Afrikaans Afrikaner yn golygu person o Dde Affrica oedd yn siarad Afrikaans.

Yn ystod y 1960au roedd pobl wyn yn galw'r bobl ddu yn Bantu. Mewn nifer o ieithoedd Affricanaidd du, yn syml, pobl yw ystyr y gair. Serch hynny, o ddydd i ddydd, roedd y mwyafrif o bobl wyn yn difrïo pobl ddu. Roedden nhw fel arfer yn galw pobl ddu yn 'kaffir', sy'n golygu 'pagan'. Roedd yn air i ddisgrifio person roeddech yn edrych i lawr arno. Roedd dyn du mewn oed yn cael ei alw'n 'boy', a menyw ddu yn cael ei galw'n 'girl'. Roedd disgwyl i'r bobl ddu alw'r bobl wyn yn 'baas', sy'n golygu 'boss'.

(*South Africa*, J. F. Aylett, 1996)

### Ffynhonnell D: Rheolau

Rhaid trin y Brodorion, yn aml er mwyn eu hamddiffyn nhw, yn ôl y gyfraith fel plant; rhaid peidio â rhoi diod feddwol o Ewrop iddyn nhw; rhaid peidio â gadael iddyn nhw fod allan ar ôl rhyw amser penodol yn y nos heb drwydded arbennig ...

(*This is South Africa*, 1947)

## Tasgau: Llywodraeth Hertzog

1. **Gan ddefnyddio'r ffynonellau uchod, nodwch 5–8 o ffyrdd roedd pobl ddu De Affrica'n cael eu trin fel dinasyddion eilaidd.**
2. **Pa mor ddefnyddiol yw Ffynhonnell B i hanesydd sy'n astudio apartheid yn Ne Affrica ?**
3. **Pa mor ddibynadwy yw tystiolaeth Ffynhonnell Ch i hanesydd sy'n astudio agweddau'r llywodraeth at bobl ddu?**

# Sefydlu'r drefn apartheid yn Ne Affrica

Mae'r flwyddyn 1948 yn flwyddyn bwysig yn hanes De Affrica. Yn ystod y flwyddyn honno roedd Etholiad Cyffredinol. Yn yr etholiad hwnnw enillodd plaid Dr Daniel Malan, sef y Blaid Genedlaethol. Roedd y blaid hon yn credu bod pobl wyn yn rhagori ar bobl ddu.

Mae'r gair Afrikaans apartheid yn golygu 'arwahanrwydd' neu 'bod ar wahân'. Roedd Dr Malan a'i blaid yn credu mewn cadw'r bobl ddu a'r bobl wyn ar wahân. Roedden nhw'n dadlau y dylai pobl ddu, pobl wyn a phobl liw fyw eu bywydau ar wahân a datblygu yn eu ffordd eu hunain. Dros y blynyddoedd nesaf, cyflwynon nhw gyfres o ddeddfau oedd yn sefydlu trefn apartheid yn Ne Affrica.

Cyn sefydlu'r drefn apartheid, roedd yn rhaid rhoi pobl De Affrica mewn grwpiau hiliol gwahanol. Honnai'r llywodraeth fod tri grŵp o bobl yn byw yn Ne Affrica:

- gwyn (Afrikaners a phobl wyn eraill)
- lliw (plant i briodasau cymysg a phobl Asiaidd)
- brodorion (pobl ddu).

Y broblem oedd bod llawer o'r bobl liw yn edrych yn wyn. Yn y pen draw cafodd pob person yn Ne Affrica ei roi yn un o'r tri grŵp yma.

## Y deddfau apartheid

**Deddf Gwahardd Priodasau Cymysg, 1949** – gwahardd priodasau rhwng pobl wyn a phobl ddu neu liw.

Deddf (Diwygio) Anfoesoldeb, 1950 – gwahardd perthynas rywiol rhwng pobl ddu a gwyn. Cosb – 6 mis o lafur caled.

**Deddf Cofrestru'r Boblogaeth, 1950** – rhoi pawb yn Ne Affrica mewn un o dri grŵp, sef GWYN, LLIW a BRODORION, a chofnodi hil person ar y gofrestr genedlaethol.

**Deddf Ardaloedd Grwpiau, 1950** – deddfu lle yn union roedd pob grŵp i fod i fyw. Roedd hefyd yn rhoi'r hawl i'r llywodraeth ddweud bod rhai ardaloedd 'ar gyfer pobl wyn yn unig'.

**Deddf Atal Comiwnyddiaeth, 1950** – gwahardd Comiwnyddiaeth, ac unrhyw grŵp gwleidyddol oedd am 'greu newid gwleidyddol drwy darfu ar yr heddwch'.

**Deddf (Diwygio) Cyfreithiau'r Brodorion, 1952** – tynhau rheolau symud pobl ddu i mewn ac allan o'r dinasoedd.

**Deddf Diddymu Trwyddedau, 1952** – er gwaetha'r teitl, gorfodi pobl ddu oedd yn byw mewn ardaloedd gwyn i gario llyfr trwydded. Roedd modd carcharu person oedd yn cael ei ddal heb ei lyfr trwydded. Roedd y llyfrau hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y person.

**Deddf Neilltuo Cyfleusterau ar Wahân, 1953** – sicrhau bod arwyddion yn cael eu codi mewn lleoedd cyhoeddus yn dweud 'Ewropeaid yn Unig' yn yr ardaloedd gwyn a 'Heb fod yn Ewropeaid yn Unig' yn y lleoedd i bobl ddu neu liw. Cafodd yr arwyddion hyn eu codi ym mhobman, yn cynnwys gorsafoedd trenau, swyddfeydd post, parciau a thraethau. Roedd y cyfleusterau a'r gwasanaethau gorau ar gyfer pobl wyn.

**Deddf Addysg Bantu, 1953** – y llywodraeth yn rheoli addysg pobl ddu. Roedd pobl ddu yn cael eu dysgu yn eu hiaith eu hunain, nid Saesneg nac Afrikaans, ac am eu safle mewn cymdeithas.

**Deddf (Diwygio) Cynrychioli Pleidleiswyr ar Wahân, 1956** – tynnu pobl liw oddi ar y rhestr etholwyr.

**Mân Apartheid 1950au** – cyfres o ddeddfau oedd yn rheoli pob agwedd ar fywyd pobl ddu. Er enghraifft, roedd hawl gan weinidogion gwyn i wahardd pobl ddu rhag mynd i'w heglwys nhw.

## Tasgau: Sefydlu'r drefn apartheid

**1. Rhestrwch ac eglurwch sut roedd y deddfau'n effeithio ar y canlynol:**

**a) hawliau gwleidyddol pobl ddu**

**b) hawliau cymdeithasol pobl ddu**

**c) hawliau personol pobl ddu.**

# Hendrik Verwoerd a'r drefn apartheid, 1958–1974



**Mamwledydd hunanlywodraethol a'r Bantustans**
Yn dilyn marwolaeth Johannes Gerhardus Strijdom, olynydd Dr Daniel Malan, yn 1958, daeth Dr Hendrik Verwoerd yn Brif Weinidog De Affrica.

Roedd Verwoerd wedi credu'n gryf yn hawliau'r Afrikaners erioed. Yn 1937 daeth yn olygydd ar bapur newydd Afrikaner o'r enw Die Transvaler. Yn y cyfnod yma, cefnogodd bolisïau apartheid Dr Malan yn frwd. Yn 1950, cafodd swydd fel gweinidog yn y llywodraeth. Bu'n rheoli ei blaid a'i wlad rhwng 1958 ac 1966. Ar 6 Medi 1966, pan oedd Verwoerd newydd gymryd ei sedd yn y senedd yn Cape Town, cafodd ei drywanu gan negesydd seneddol. Bu farw'n fuan wedyn.

Roedd Verwoerd yn credu'n gryf mewn amddiffyn 'hawliau'r' Afrikaners. Credai ei fod yn gwneud gwaith Duw ar y ddaear wrth geisio sicrhau De Affrica fyddai'n cael ei rheoli gan bobl wyn, Gristnogol. Roedd wedi gweld nifer o wledydd eraill ar gyfandir Affrica'n ennill eu hannibyniaeth oddi ar wledydd fel Prydain, ac nid oedd am weld pobl ddu yn rheoli yn ei wlad ef. Ateb Verwoerd i broblemau De Affrica oedd cynnig yr hawl (esgus cynnig yr hawl) i bobl ddu eu rheoli eu hunain, ar wahân i bobl wyn, a chreu mamwledydd hunanlywodraethol. Yr enw ar y 'gwledydd' bach hyn yn Ne Affrica oedd Bantustans.

> *Rwy'n ceisio sicrhau cyfiawnder i bob grŵp . . . Mae'r polisi o ddatblygiad ar wahân yn un sydd wedi cael ei gynllunio i sicrhau'r hapusrwydd, y diogelwch a'r sefydlogrwydd a ddaw gyda'u hiaith a'u gweinyddiaeth eu hunain ar gyfer pobl Bantu yn ogystal â phobl wyn.*

(Neges Hendrik Verwoerd i bobl De Affrica, 1958)

Yn 1959, felly, pasiwyd Deddf Hyrwyddo Hunanreolaeth Bantu.

Roedd tir De Affrica yn mynd i gael ei rannu. Roedd y bobl wyn yn cael rheoli 87% o'r tir gan adael 13% i'r bobl ddu. Byddai tir y bobl ddu yn cael ei rannu yn wyth (deg yn ddiweddarach) mamwlad hunanlywodraethol – neu Bantustan.

**Effaith apartheid ar fywyd diwylliannol De Affrica**
Wrth gwrs, doedd y Bantustans ddim yn creu trefn deg yn Ne Affrica, ond yn hytrach yn sicrhau mwy o reolaeth gan bobl wyn dros bobl ddu. Cafodd dros dair miliwn o bobl ddu eu gorfodi i symud o'r ardaloedd 'gwyn yn unig' i'r Bantustans. Yno roedd gorboblogi difrifol.

Doedd y Bantustans ddim yn hunanlywodraethol mewn gwirionedd, ac roedden nhw'n rhy fach i gael eu heconomi eu hunain. Yr hyn wnaeth polisi Verwoerd oedd ceisio twyllo'r byd bod llywodraeth De Affrica yn gofalu am y bobl ddu. O hyn ymlaen gallai gwleidyddion gwyn De Affrica ddadlau bod y bobl ddu yn cael eu rheoli eu hunain, ac mai pobl wyn yn unig oedd yn byw yn y rhannau oedd yn cael eu rheoli gan lywodraeth wyn De Affrica



**Effeithiau'r drefn ar fywyd a gwaith yn Ne Affrica**

O hyn ymlaen doedd dim hawl gan bobl ddu i fyw mewn ardaloedd gwyn. Roedd ganddyn nhw hawl i deithio i ardaloedd gwyn i weithio am 11 mis y flwyddyn, ond heb eu teuluoedd. Roedden nhw'n gorfod byw mewn hosteli un rhyw arbennig. Roedd yn rhaid i bob gweithiwr oedd yn teithio i'r gwaith y tu allan i'r Bantustans gario llyfr trwydded arbennig o dan Ddeddf Diddymu Trwyddedau 1952.

Cwestiwn allweddol:

Beth oedd prif nodweddion y gwrthwynebiad i apartheid yn Ne Affrica?

## Y gwrthwynebiad i apartheid yn Ne Affrica

**Steve Biko a Mudiad Ymwybyddiaeth Ddu (*Black Consciousness*)**

Bywgraffiad



Mae enw Steve Biko yn gyfarwydd i lawer o bobl erbyn hyn oherwydd y ffilm Cry Freedom sy'n sôn am ei frwydr ef, a phobl eraill, yn erbyn apartheid. Cafodd Biko ei eni yn 1946 yn King William's Town yn fab i deulu tlawd.

O'r ysgol aeth ymlaen yn 1966 i astudio yn Ysgol Feddygol Natal. Yno, roedd yn un o'r rhai ffurfiodd Mudiad Myfyrwyr De Affrica (*SASO: South African Students' Organisation*) yn 1968. Cafodd ei daflu allan o'r coleg am ei weithgareddau gwleidyddol, ond parhaodd i ymgyrchu yn erbyn apartheid. Roedd Biko yn gallu siarad ac ysgrifennu'n dda. Roedd ei syniadau'n boblogaidd iawn ymhlith y bobl ddu oedd yn credu mewn ymgyrchu drostyn nhw eu hunain. Doedden nhw ddim yn boblogaidd ymhlith mudiadau oedd yn cael eu rheoli gan bobl wyn.

Cafodd Biko ei arestio sawl gwaith gan yr heddlu. O 1973 ymlaen, cafodd ei wahardd rhag gwneud nifer o bethau, er enghraifft, teithio heb ganiatâd y llywodraeth, cyhoeddi unrhyw beth. Cafodd ei arestio sawl gwaith ond ni chafodd ei gyhuddo o unrhyw drosedd gan yr heddlu. Yn 1977, bu farw Steve Biko tra oedd yn cael ei holi gan yr heddlu.

Dyma un disgrifiad o'r ffordd y bu farw:

> Cafodd ei wahardd gan y llywodraeth yn 1973, ac yna ei gadw yn y ddalfa heb ei gyhuddo am rai misoedd yn 1976. Yn 1977 cafodd ei arestio eto. Cadwodd heddlu Port Elizabeth ef yn noeth mewn cell am ddeunaw niwrnod. Cafodd Biko ei guro mor wael gan y pum heddwas yn y tîm holi nes iddo fynd i goma. 'Roedd sgarmes,' meddai'r swyddog â gofal. 'Tarodd Mr Biko ei ben yn erbyn wal.' Wedyn aethon nhw ag ef, yn anymwybodol ac â blanced un unig drosto, ar daith 1,000 cilometr yng nghefn Land Rover i gael triniaeth mewn ysbyty yn Pretoria. Bu farw yno, yn 30 oed . . .   Stori'r heddlu oedd ei fod wedi'i grogi ei hun, gan ddefnyddio'i jîns
>
> (*South Africa 1948 94*, Martin Roberts, 1996)

**Syniadau gwleidyddol Steve Biko – I Write What I Like**
Credai Steve Biko y dylai'r bobl ddu sefyll dros eu hawliau. Yn fwy na hynny, credai y dylen nhw ddysgu eu caru eu hunain fel pobl. Pwysleisiodd y syniad o ymwybyddiaeth ddu, sef bod y bobl ddu yn cael gwared ar y syniad eu bod yn israddol i bobl wyn. Roedd yn dadlau bod degawdau o fyw o dan reolaeth y bobl wyn, mewn cymdeithas wyn, wedi golygu bod y bobl ddu wedi colli hyder ynddyn nhw eu hunain. Roedden nhw wedi dod i gredu eu bod yn israddol, ac yn derbyn y ffordd roedden nhw'n cael eu trin.

*Pan fydd ar ei ben ei hun yn y tŷ bach, mae [wyneb y dyn du] yn mynegi casineb at y ffordd mae'n cael ei drin gan y gymdeithas wyn o'i gwmpas. Ond y funud y mae'n cael ei alw gan ei feistr gwyn, mae ei wyneb yn newid ac mae'n gwenu fel dafad ufudd.*

(I Write What I Like, Steve Biko, 1988)




## Tasgau: Steve Biko

1. **Beth roedd Biko yn ei olygu wrth y dyfyniad o I Write What I Like?**
2. **Pam dewisodd Biko y teitl hwn i'w lyfr?**
3. **Ymchwiliwch i fywyd a gwaith Martin Luther King. Rhestrwch bethau tebyg rhwng ei fywyd ef a bywyd Biko.**
4. **Sut effeithiodd Biko ar ddatblygiad ymwybyddiaeth ddu yn UDA?**


**Nelson Rolihlahla Mandela a'r *ANC***

Bywgraffiad



Roedd Mandela yn perthyn i deulu brenhinol llwyth y Thembu. Bu farw ei dad pan oedd yn ifanc a chafodd Nelson Mandela ei fagu gan bennaeth y llwyth. Aeth i Brifysgol Fort Hare. Yno yn 1940, cymerodd ran gydag Oliver Tambo mewn boicot gan fyfyrwyr ynglŷn ag ansawdd y bwyd; cafodd y ddau eu taflu allan o'r coleg. Pan ddychwelodd adref ym mis Rhagfyr 1940, cafodd wybod bod pennaeth y llwyth wedi trefnu priodas ar ei gyfer; rhedodd i ffwrdd i Johannesburg. Yno, gyda chymorth ei ffrind, Walter Sisulu, llwyddodd i gael swydd mewn cwmni cyfreithiol.

Yn 1944, aeth Mandela, Tambo a Sisulu ati i sefydlu cangen ieuenctid Cyngres Genedlaethol Affrica (*ANC: African National Congress*). Yn 1947 daeth Mandela yn ysgrifennydd y gangen. Cymerodd ran mewn ymgyrchoedd yn erbyn apartheid yn 1952. Yn y flwyddyn honno, cafodd ei arestio o dan y Ddeddf Atal Comiwnyddiaeth. Cafodd ei wahardd rhag gadael ardal Johannesburg a rhag mynd i gyfarfodydd cyhoeddus. Serch hynny, parhaodd i weithio'n ddirgel gyda'r *ANC*.



Cafodd yr *ANC* a mudiadau eraill oedd yn ymladd yn erbyn apartheid eu gwahardd gan y llywodraeth yn 1960.

Bu Mandela dramor am gyfnod yn 1962 yn ceisio chwilio am fwy o gefnogaeth i'r *ANC* a'r frwydr yn erbyn apartheid. Pan ddychwelodd i'r wlad yn Awst 1962,

cafodd ei arestio a'i gyhuddo o adael y wlad heb ganiatâd a heb basbort. Cafodd ei ddedfrydu i bum mlynedd o lafur caled.

Yn y cyfnod cyn i Mandela gael ei garcharu, roedd yr *ANC* wedi bod yn cynnal ymgyrch fomio yn Johannesburg, ac roedd Mandela wedi bod yn rhan o'r ymgyrch. Pan dorrodd yr heddlu i mewn i bencadlys yr *ANC* yn Rivonia yn 1963, fe gawson nhw hyd i nifer o ddyddiaduron a dogfennau oedd yn cysylltu Mandela â'r ymgyrch fomio.

Roedd yn defnyddio'r ffugenw the Black Pimpernel. Rhwng Hydref 1963 a Mehefin 1964, cafodd Prawf Rivonia ei gynnal. Fe wnaeth Mandela ei amddiffyn ei hun a'r bobl eraill oedd yn cael eu cyhuddo. Roedd yn cyfaddef iddo fod yn rhan o'r ymgyrch fomio, ac wrth ei amddiffyn ei hun darllenodd ddatganiad oedd yn para am bedair awr a hanner yn condemnio'r drefn apartheid. Cafodd ei ddedfrydu i garchar am oes.

**Syniadau gwleidyddol Mandela**

Dydyn ni ddim yn erbyn pobl wyn. Rydyn ni yn erbyn rheolaeth y bobl wyn ac wrth frwydro yn erbyn rheolaeth pobl wyn, mae gennym gefnogaeth rhai rhannau o boblogaeth Ewrop . . . Mae'r Gyngres wedi pregethu polisi o harmoni rhwng pobl o wahanol hil yn gyson, ac rydyn ni wedi condemnio hiliaeth o unrhyw fath, waeth pwy sy'n ei harddel.

(Nelson Mandela mewn araith yn y Prawf Brad, 1956-60)

Doedd hanner can mlynedd o ddefnyddio dulliau di drais ddim wedi rhoi unrhyw beth i bobl ddu De Affrica . . . Mae cyfnod yn dod ym mywyd unrhyw genedl pan fydd dau ddewis yn aros: ildio, neu ymladd. Mae'r cyfnod hwnnw wedi dod i Dde Affrica.

(Nelson Mandela yn ei araith ym Mhrawf Rivonia, 1964)

Rwy'n eich cyfarch i gyd yn enw heddwch, democratiaeth a rhyddid i bawb. Rwy'n sefyll yma o'ch blaen nid fel proffwyd, ond fel gwas gostyngedig i chi, y bobl. Eich brwydr ddiflino ac arwrol chi sydd wedi fy ngalluogi i sefyll yma heddiw. Felly rwy'n cyflwyno gweddill fy mywyd i'ch gwasanaeth.

Mae eich cryfder a'ch disgyblaeth wedi rhoi'r cyfle i mi sefyll fan hyn heddiw. Nid brenhinoedd yn unig sy'n creu hanes; mae'n cael ei greu gan bobl – gweithwyr, y werin, doctoriaid, gweinidogion – ein pobl ni i gyd. Rydw i wedi'i weld yn digwydd, a dyna pam rwy'n medru sefyll yma heddiw yn ddyn rhydd.

(Nelson Mandela, ar ddiwrnod ei ryddhau, 11 Chwefror 1990)



Bu yn y carchar am 27 mlynedd. Yn y cyfnod hwn cynigiodd Prif Weinidog De Affrica ei ryddhau sawl gwaith ar yr amod y byddai'n newid ei safbwynt ar apartheid a'r defnydd o drais. Gwrthododd. Gydol y 1970au a'r 1980au roedd Nelson Mandela oedd yn cynrychioli'r frwydr yn erbyn apartheid. Cafodd ei ryddhau o'r carchar yn Chwefror 1990. Rhwng 1990 ac 1994 bu'n trafod dyfodol De Affrica gyda'r Prif Weinidog F. W. de Klerk. Daeth yn arweinydd yr *ANC* unwaith eto. Yn 1993, cafodd Mandela a de Klerk Wobr Nobel am Heddwch. Ym Mai 1994, yn dilyn yr etholiad rhydd cyntaf i bobl ddu yn Ne Affrica, daeth Nelson Mandela yn Arlywydd De Affrica.

### Tasgau: Nelson Mandela

1. **Sut dioddefodd Mandela yn sgil y frwydr yn erbyn apartheid?**

2. **Pam roedd rhai gwledydd yn condemnio Mandela a'r *ANC*?**

## Protestiadau treisgar

Rydyn ni eisoes wedi edrych ar hanes dau ddyn amlwg oedd yn brwydro yn erbyn apartheid, sef Nelson Mandela a Steve Biko. Roedd y rhain yn arweinwyr amlwg sydd erbyn hyn yn enwau cyfarwydd.

Ond roedd miloedd o bobl gyffredin yn brwydro gyda nhw yn erbyn apartheid, ac yn gwneud hynny o dan arweiniad dau fudiad yn arbennig:

- Cyngres Genedlaethol Affrica (*ANC: African National Congress*)
- Y Gyngres Ban Affricanaidd (*PAC: the Pan Africanist Congress*).

Mae'r frwydr yn erbyn apartheid yn llawn o ddigwyddiadau erchyll. Mae dau ddigwyddiad arbennig wedi dod yn enwog – un yn Sharpeville yn 1960, a'r llall yn Soweto yn 1976.

**Sharpeville, 1960**

Un o bolisïau mwyaf amhoblogaidd y llywodraeth oedd yr un oedd yn gorfodi pob person du i gario llyfr trwydded. Roedd pobl ddu wedi protestio yn erbyn y rheolau hyn yn y gorffennol. Ond ym Mawrth 1960, penderfynodd y *PAC* lansio ymgyrch enfawr yn eu herbyn. Y gosb am beidio â chario'r llyfr trwydded fel rheol oedd mis o garchar neu ddirwy o £10.00.

Roedd y *PAC* a'r llywydd, Mr Robert Sobukwe, yn gofyn i bobl ddu adael eu llyfr trwydded gartref a mynd i'r swyddfa heddlu leol i gyfaddef eu bod yn cerdded o gwmpas heb lyfr trwydded. Wrth wneud, roedden nhw'n torri'r gyfraith. Y syniad oedd bod miloedd o bobl ddu yn gwneud hyn, ac na fyddai modd i'r heddlu eu taflu i gyd i'r carchar.

Ar ddydd Llun, 21 Mawrth 1960, dechreuodd y gweithredu. Roedd protestiadau ar hyd a lled De Affrica. Yn nhreflan Sharpeville, 35 milltir o Johannesburg, daeth torf o bobl ddu ynghyd wrth swyddfa'r heddlu i brotestio'n heddychlon, ac i ddangos i'r heddlu nad oedden nhw'n cario'u llyfr trwydded.

Mae dau fersiwn o'r hyn ddigwyddodd wedyn yn Sharpeville – fersiwn swyddogol yr heddlu a'r llywodraeth, a fersiwn llygad-dystion a haneswyr.

## Ffynhonnell A

Cyrhaeddodd [y dorf swyddfa'r heddlu] am 8.00 a.m. Roedd yn dorf fawr, wedi'i chynhyrfu, waeth beth oedd ei maint. Yn ôl rhai tystion, roedd y protestwyr mewn hwyliau da, yn heddychlon ac nid oedd neb yn cario arfau. Roedd yr heddlu'n dadlau bod y dorf mewn hwyliau gwael a bod gan rai pobl arfau, gan gynnwys cerrig oedd yn cael eu taflu at yr heddlu.

Am 10.00 a.m. gwelwyd awyrennau'n hedfan yn ôl ac ymlaen uwchben y dorf fel petaent yn ceisio dychryn y protestwyr . . .  Am 1.15 p.m. cyrhaeddodd un o uwchswyddogion yr heddlu, yr Is-gyrnol Pienaar.


Gydag ef roedd car arfog Saracen a heddlu â gynnau awtomatig. Ymhen ychydig, trefnodd Pienaar bod 75 heddwas gwyn yn ffurfio llinell y tu allan i'r orsaf a'u gorchymyn i lwytho'u gynnau â phum rownd.

Does neb yn siwr beth ddigwyddodd wedyn. Chlywodd neb ergydion gwn i rybuddio'r dorf. Roedd rhai pobl yn honni bod gorchymyn i danio; roedd eraill yn dweud na ddigwyddodd hyn. Ond dyna beth wnaeth yr heddlu. Parhaodd y saethu rhwng 10 a 30 eiliad. Pan ddechreuodd, trodd y protestwyr ar frys a dianc.

(*South Africa*, J. F. Aylett, 1996)

## Ffynhonnell B





## Ffynhonnell C

Fe welais heddwas yn taro sawl gwraig a oedd yn ceisio cael gafael ar gyrff â charn ei wn. Chawson nhw ddim eu saethu i'r llawr, ond fe gawson nhw eu taro â gwn a'u cicio a'u cicio eto.

(Joanmarie Fubbs, newyddiadurwr gwyn o Dde Affrica, yn siarad yn 1990)

## Ffynhonnell Ch

Roeddwn i'n sefyll wrth y drws, yn teimlo'n nerfus, pan ddaeth dau heddwas gwyn ataf i gael diod o ddŵr. Es i nôl jwg a mynd â'r dŵr atyn nhw . . . Dywedon nhw, 'Chi'n gwybod, rydyn ni'n mynd i ddechrau saethu am ddau o'r gloch.'

(Modiehi Mahabane, person oedd yn byw yn Sharpeville, yn siarad yn 1990)

**Ffynhonnell D**

Hwn oedd un o'r trychinebau mwyaf yn hanes De Affrica, cafodd 70 o bobl eu lladd ac roedd 162 wedi'u hanafu. Dechreuodd yr heddlu saethu tuag at brotestwyr yn y drefgordd o 'Sharpeville' a oedd yna i brotestio yn erbyn cael eu gorfodi i gario paslyfrau…

(*Chronicle of the 20th Century,* 1988)

## Tasg: Sharpeville, 1960

1. **Defnyddiwch wybodaeth o'r ffynonellau, a'ch synnwyr cyffredin hanesyddol i ysgrifennu disgrifiad byr o'r hyn ddigwyddodd yn Sharpeville ar 21 Mawrth 1960.**

**Soweto, 1976**

Yr ail ddigwyddiad mawr yn hanes De Affrica o safbwynt protestiadau drodd yn dreisgar yw'r hyn ddigwyddodd yn Soweto yn ystod mis Mehefin 1976. Roedd Soweto yn drefgordd enfawr y tu allan i Johannesburg lle roedd dros filiwn o bobl ddu yn byw. Roedd tua chwarter y rhain yn teithio ar y trên i Johannesburg bob dydd, taith oedd yn cymryd dwy awr bob ffordd iddyn nhw.

Oherwydd gorboblogi, roedd llawer o drigolion Soweto yn rhannu tai gyda theuluoedd eraill. Yn aml roedd dros ddeuddeg o bobl yn byw mewn tŷ pedair ystafell. Doedd gan y tai yma ddim trydan, dim toiled y tu mewn, a dim dŵr glân. Roedd y trigolion yn defnyddio dŵr oer o'r tapiau y tu allan, a lampau nwy neu baraffîn i oleuo eu tai. Roedd miloedd o'r trigolion hefyd yn byw mewn hosteli un rhyw, a doedd dim hawl gan eu gwragedd (nac unrhyw wragedd eraill!) i ymweld â nhw. Yn rhai o strydoedd Soweto roedd pobl yn byw mewn siediau wedi'u hadeiladu allan o gardbord, darnau o fetel neu ddefnyddiau amrwd eraill.

Yr hyn oedd yn anarferol am Soweto oedd bod cymaint o bobl ifanc yn byw yno. Roedd dros hanner y boblogaeth o dan 20 oed. Yn gyffredinol, roedd pobl ddu ifanc yn fwy eithafol yn erbyn apartheid ac yn fodlon protestio mwy na'u rhieni. Dyma'r bobl oedd wedi cael eu dylanwadu'n arbennig gan syniadau Steve Biko am ymwybyddiaeth ddu. Roedden nhw'n barod i wynebu'r llywodraeth a sefyll dros eu hawliau.

Yn 1976 penderfynodd y llywodraeth fod yn rhaid i bobl ddu dderbyn hanner eu haddysg drwy gyfrwng Afrikaans. Doedd plant ysgol du ddim yn hapus i gael eu dysgu drwy gyfrwng iaith roedden nhw'n ei hystyried yn 'iaith y gormeswr'. Roedden nhw'n gweld hyn yn ffordd arall o geisio'u rheoli. Roedden nhw wedi dod o dan ddylanwad pobl fel Biko oedd yn dweud y dylen nhw eu caru eu hunain fel pobl ddu, a charu eu hiaith a'u diwylliant eu hunain.



Dechreuodd plant ysgol wrthod sefyll arholiadau. Ar 16 Mehefin, roedd gorymdaith oedd yn cynnwys tua 20,000 o blant ysgol a myfyrwyr. Pan ddaeth y rhain wyneb yn wyneb â'r heddlu, fe saethodd yr heddlu atyn nhw, gan ladd dau ac anafu llawer mwy. Yn dilyn y digwyddiad hwn, ffrwydrodd Soweto ac ardaloedd eraill, a gwelwyd trais, terfysg a phrotestio. Cafodd adeiladau'r llywodraeth eu llosgi, ymosodwyd ar geir, a chafodd nifer o blismyn du eu lladd, a phobl ddu eraill oedd yn gweithio i'r llywodraeth.

Lledodd y terfysg o Soweto i rannau eraill o'r wlad. Cafodd adeiladau fel llyfrgelloedd eu llosgi, ac roedd terfysg difrifol yng nghanol Cape Town. Cafodd ysgolion sawl ardal eu cau am ran helaeth o 1976, a bu'n rhaid gohirio'r arholiadau y flwyddyn honno. Aeth y llywodraeth ati i geisio adfer trefn. Un canlyniad i hyn oedd bod yr heddlu yn saethu at dorfeydd oedd yn protestio.

**Canlyniadau terfysgoedd Soweto**

Mae ffigurau swyddogol y llywodraeth yn dweud bod dros 600 o bobl wedi cael eu lladd yn nherfysgoedd Soweto, a dros 1,500 wedi cael eu hanafu. Mae'n debygol fod y ffigur cywir lawer uwch. O blith y rhai a fu farw, roedd canran uchel o blant ysgol. Yn ystod 1976 ac 1977, roedd dros 5,000 o blant ysgol o dan 18 oed yn euog o droseddau gwahanol. Mewn un achos roedd plentyn wyth mlwydd oed yn euog, a chafodd ei guro â'r gansen am fod yno.

Roedd y dinistr yn ofnadwy, ac roedd bron y cyfan ohono yn yr ardaloedd du; 350 o ysgolion, 250 o siopau diodydd a neuaddau cwrw, 170 o siopau, clinigau, banciau, llyfrgelloedd, swyddfeydd post a 200 o dai preifat. Bu farw dros 700 o bobl ddu. Cafodd llawer ohonyn nhw eu lladd gan yr heddlu. Cafodd eraill eu lladd gan y bobl ddu oedd yn credu eu bod wedi rhoi gwybod i'r heddlu neu'n gweithio i'r llywodraeth wyn mewn ffyrdd eraill . . . Arweiniodd Soweto at y cyfnod mwyaf o drais yn hanes De Affrica . . . Cafodd busnesau gwyn eu siglo gan y terfysgoedd. Dechreuodd y rhain roi mwy o bwysau ar y llywodraeth i newid. Roedd y terfysgoedd hefyd yn creu lluniau teledu trawiadol a gafodd eu darlledu ar draws y byd. Trodd y lluniau teledu farn gwledydd eraill fwyfwy yn erbyn llywodraeth De Affrica.

Yn 1977, galwodd Vorster [y Blaid Genedlaethol] etholiad cyffredinol. Neges y terfysgoedd i'r mwyafrif o bobl wyn oedd bod angen llywodraeth fyddai'n ymateb yn llym a'r Blaid Genedlaethol gafodd eu pleidlais. Enillodd y Blaid Genedlaethol ei buddugoliaeth fwyaf erioed...

(*South Africa* 1948 94, Martin Roberts, 1996)

Roeddwn i yno yn eu plith nhw; gwelais i beth ddigwyddodd. Cododd y plant gerrig, carion nhw glawr bin sbwriel fel tarian a cherdded i gyfeiriad y gynnau peiriant. Wrth reswm maen nhw'n deall bod gan y dyn gwyn lawer o arfau; gorymdeithion nhw er gwaetha tanio trwm y gynnau. Gallech chi arogli tân gynnau ym mhobman. Roedd plant yn marw yn y strydoedd ac wrth iddyn nhw farw, roedd y lleill yn gorymdeithio ymlaen gan wynebu'r gynnau. Does neb wedi cael camargraff o bŵer y gelyn. Rydyn ni'n gwybod ei fod wedi'i arfogi'n gryf. Ond roedd dyhead mawr y plant yma am ryddid yn golygu eu bod yn fodlon wynebu'r gynnau heb ddim byd ond cerrig. Dyna sy'n digwydd wrth i chi ddyheu am ryddid, pan fyddwch eisiau torri cadwynau gorthrwm. Does dim byd arall yn cyfrif. Doedden ni ddim yn medru atal ein plant. Doedden ni ddim yn medru eu cadw oddi ar y stryd.

(*Part of My Soul Went with Him*, Winnie Mandela, 1985)

# Ymgyrchoedd yr *ANC* a'r *PAC*

Cyngres Genedlaethol Affrica *(ANC: African National Congress)*
Y Gyngres Ban Affricanaidd *(PAC: the Pan Africanist Congress).*

Mae dau brif fudiad yn hanes De Affrica sydd wedi ymgyrchu'n gyson yn erbyn apartheid, sef yr *ANC* a'r *PAC*. Mae modd rhannu hanes y gwrthwynebiad i apartheid yn fras yn ddau – y cyfnod cyn Sharpeville (1948–1960), a'r cyfnod ar ôl 1960 pan drodd y mudiadau yma fwyfwy at ddefnyddio trais.

**Hanes yr ANC cyn 1960**

Pan ddechreuodd y llywodraeth wyn basio deddfau yn erbyn pobl ddu yn ôl yn 1910, penderfynodd llawer o bobl ddu ddod at ei gilydd i wrthwynebu'r camau yma. Yn 1912, cafodd mudiad yr *ANC* ei sefydlu er mwyn uno'r bobl ddu o wahanol lwythau. Byddai'r mudiad yn siarad ar ran pob un ohonyn nhw i wrthwynebu apartheid.

Roedd y bobl ddu aeth ati i sefydlu'r *ANC* yn credu'n gryf mewn ceisio defnyddio dulliau di¬-drais wrth ymladd yn erbyn apartheid. Pobl ddu dosbarth canol oedden nhw, gweinidogion a chyfreithwyr, gan fwyaf. Erbyn 1939, doedd yr *ANC* ddim wedi cyflawni llawer. Ar ôl i Blaid Genedlaethol Dr Daniel Malan ddod i rym yn 1948 a dechrau adeiladu gwlad newydd wedi'i seilio ar apartheid, roedd pobl ddu'n poeni'n fawr iawn am eu dyfodol.

**Rhaniadau ymhlith gwrthwynebwyr apartheid**

Cyn hynny, yn 1943, roedd Cynghrair Ieuenctid wedi cael ei ffurfio o fewn yr *ANC*. Erbyn diwedd y 1940au roedd rhwyg amlwg yn datblygu rhwng aelodau hŷn yr *ANC*, a'r bobl ifanc a oedd yn fwy radical. Rhai o'r arweinwyr ifanc newydd yma oedd pobl fel Nelson Mandela, Walter Sisulu, Oliver Tambo ac Anton Lembede. Daeth y rhain yn ddylanwadol iawn o fewn y mudiad, ac fe lwyddon nhw i wthio'u syniadau ar y mudiad. Roedden nhw'n credu mewn gweithredu uniongyrchol ac yn credu y dylai'r *ANC* arwain ymgyrchoedd torfol yn erbyn llywodraeth De Affrica. Pan ddaeth Sisulu yn Ysgrifennydd Cyffredinol y mudiad yn 1949, cafodd Cynllun Gweithredu newydd ei fabwysiadu. Golygai hyn y byddai'r *ANC* o hynny ymlaen yn gyfrifol am drefnu streiciau, protestiadau a dulliau eraill o weithredu – dulliau anufudd-dod sifil.

Yn ystod gwanwyn 1950, trefnodd yr *ANC* gyfres o orymdeithiau protest a chyfarfodydd ar draws y wlad. Penllanw'r cyfan oedd Diwrnod Rhyddid ar 1 Mai pan aeth gweithwyr led¬led De Affrica ar streic er mwyn dangos eu cefnogaeth i ryddid. Ymateb y llywodraeth i hyn oedd pasio'r Ddeddf Atal Comiwnyddiaeth. O dan y ddeddf hon roedd modd i'r llywodraeth arestio unrhyw un bron oedd yn protestio yn ei herbyn. Hefyd roedd arweinwyr mudiadau fel yr *ANC* yn gallu cael eu gwahardd (fel digwyddodd i Biko).

**Yr Ymgyrch Herfeiddio, 1952**

Roedd llywodraeth o bobl wyn De Affrica'n bwriadu trefnu dathliadau mawr ar hyd a lled De Affrica ar 26 Mehefin 1952. Roedd hwn yn ddiwrnod pwysig yn hanes pobl wyn De Affrica am ei fod yn 300 mlynedd yn union ers i Jan van Riebeeck lanio ar Benrhyn Gobaith Da a dechrau ymsefydlu yn Ne Affrica. Penderfynodd yr *ANC* eu bod yn mynd i wrthwynebu'r dathliadau yma drwy drefnu ymgyrch fawr ddi drais yn erbyn apartheid.

Roedd tactegau'r *ANC* yn yr ymgyrch yn syml. Roedden nhw'n mynd i anwybyddu deddfau apartheid a mynd ati'n fwriadol i'w herio a'u torri. Un enghraifft oedd mynd i ardaloedd 'Gwyn yn Unig' yn y gorsafoedd trenau, a chael eu harestio am wneud hynny.

Yn ystod haf 1952, cafodd dros 8,000 o bobl ddu eu harestio am herio deddfau apartheid. Er bod y rhan fwyaf o'r protestio yn ddi-drais, byddai terfysgoedd yn y cyfnod yma hefyd. Ymateb y llywodraeth oedd pasio mwy o ddeddfau i roi pwerau iddyn nhw arestio a charcharu pobl ddu. Gallai'r bobl ddu oedd yn herio cyfreithiau apartheid gael eu carcharu am dair blynedd, yn ogystal â chael eu chwipio, a'u gorfodi i dalu dirwyon.

Er i'r ymgyrch herfeiddio ddod i ben erbyn 1953, roedd wedi dylanwadu'n fawr iawn ar bobl ddu De Affrica. Roedd hefyd wedi codi statws yr *ANC*. Dangosodd i arweinwyr yr *ANC* fod gweithredu torfol, di-drais yn gallu tynnu sylw'r llywodraeth. Ar ôl yr ymgyrch, cynyddodd aelodaeth yr *ANC* o 7,000 i 100,000. Dangosodd hefyd i arweinwyr yr *ANC* fod angen datganiad clir arnyn nhw ynglŷn â beth roedden nhw'n ymgyrchu drosto.

**Gwrthwynebiad grwpiau eraill i apartheid**

Yn 1955 trefnodd arweinwyr yr *ANC* gyfarfod ag arweinwyr grwpiau eraill oedd yn gwrthwynebu apartheid. Cafodd ei gynnal yn Kliptown ger Johannesburg, o dan yr enw 'Cyngres y Bobl'. Yno roedd cynrychiolwyr pobl ddu, Indiaid a phobl wyn yn Ne Affrica oedd yn ymgyrchu yn erbyn apartheid. Yn y cyfarfod hwn cafodd Siarter Rhyddid ei lansio. Roedd yn cynnwys pwyntiau sylfaenol am ryddid a democratiaeth. Dywedodd arweinydd yr *ANC*, y Pennaeth Luthuli, y byddai'r Siarter yn cynnig '. . . gobaith yn yr awyr dywyll oedd ar y ffordd i ryddid'

**SIARTER RHYDDID DE AFFRICA**

- Y bobl i lywodraethu
- Pob grŵp cenedlaethol i gael hawliau cyfartal
- Y bobl i rannu cyfoeth y wlad
- Y tir i'w rannu rhwng y sawl sy'n gweithio arno
- Pob un i fod yn gyfartal yn wyneb y gyfraith
- Pob un i fwynhau hawliau dynol cyfartal
- Bydd gwaith a diogelwch
- Bydd agor y drws ar ddysgu a diwylliant
- Bydd tai, diogelwch a chysur
- Bydd heddwch a chyfeillgarwch.

Ymateb y llywodraeth i'r Siarter Rhyddid oedd arestio 156 o bobl, gan gynnwys y rhan fwyaf o arweinwyr pobl ddu ac Indiaid De Affrica. Cawson nhw eu cyhuddo o fod yn gomiwnyddion, ac o gynllunio chwyldro yn Ne Affrica.

Y Prawf Brad (the Treason Trial) oedd yr enw a gafodd yr achos llys. Er i'r llywodraeth fethu cael yr un o'r arweinwyr yma'n euog yn y pen draw, parhaodd yr achos llys am bum mlynedd (1956–1961). Yn ystod y pum mlynedd yma, roedd prif arweinwyr yr *ANC* yn y carchar, ac felly'n methu ymgyrchu yn erbyn apartheid.

**Yr *ANC*, yr *MK* a'r *PAC*, 1960–1990**

Tan 1960 roedd yr *ANC* yn trefnu ymgyrchoedd torfol, di-drais yn erbyn llywodraeth De Affrica. Serch hynny, newidiodd hyn yn 1960 ar ôl cyflafan Sharpeville. Digwyddodd dau beth:

- Sylweddolodd arweinwyr yr *ANC* a mudiad o'r enw'r *PAC* fod y llywodraeth yn fodlon defnyddio trais yn erbyn protestiadau di drais
- Yn dilyn Sharpeville, aeth y llywodraeth ati i wahardd y ddau fudiad, a'u gwneud yn anghyfreithlon.

O hynny ymlaen, doedd dim modd i bobl ddu brotestio'n gyfreithlon yn erbyn apartheid. Roedd yr *ANC* wedi cael ei wahardd, a'r arweinwyr wedi gorfod mynd i guddio rhag ofn y bydden nhw'n cael eu harestio. Yn 1964 gwnaeth Nelson Mandela araith bwysig. Yn yr araith dywedodd:

> **Doedd hanner can mlynedd o ddefnyddio dulliau di drais ddim wedi rhoi unrhyw beth i bobl ddu De Affrica ac eithrio mwy a mwy o ddeddfau caeth a llai a llai o hawliau... Mae cyfnod yn dod ym mywyd unrhyw genedl pan fydd dau ddewis yn aros – ildio, neu ymladd. Mae'r cyfnod hwnnw wedi dod i Dde Affrica.**

(Nelson Mandela yn ei araith ym Mhrawf Rivonia, 1964)

Roedd arweinwyr eraill y mudiad gwrth-apartheid yn cytuno ag ef. Wrth dderbyn Gwobr Nobel am Heddwch yn 1961, dywedodd arweinydd yr *ANC*, Albert Luthuli:

> **Pwy all wadu nad yw 30 mlynedd o fy mywyd wedi bod yn rhai ofer, yn cnocio'n amyneddgar, yn rhesymol ac yn wylaidd ar ddrws sydd wedi ei gau a'i gloi? Beth yw canlyniad yr agwedd gymedrol hon? . . . yn ystod y 30 mlynedd ddiwethaf rydyn ni wedi gweld cyfreithiau di-ri'n cael eu pasio sy'n cyfyngu ar ein hawliau a'n cynnydd; erbyn heddiw, rydyn ni wedi cyrraedd man lle does gennyn ni ddim hawliau o gwbl.**

(Albert Luthuli yn siarad yn 1961)

Nelson Mandela oedd un o'r prif bobl oedd yn cefnogi defnyddio trais yn erbyn y llywodraeth. Dywedodd:

> **Allwch chi ddim ymladd yn erbyn yr anifail gwyllt â'ch dwylo yn unig.**

(Nelson Mandela yn siarad yn 1960)

Aeth Mandela ati i ffurfio mudiad tanddaearol, anghyfreithlon o'r enw Gwaywffon y Bobl (*MK: Umkhonto we Sizwe*). Cafodd y mudiad y llysenw *MK*. Aeth yr *MK* ati i drefnu ymgyrchoedd treisgar i danseilio llywodraeth De Affrica.

Pwrpas *MK* oedd bomio a dinistrio targedau tactegol, gan osgoi lladd pobl lle roedd hynny'n bosibl. Yn ystod Rhagfyr 1961, roedd deg ffrwydrad, gyda'r targedau'n amrywio o swyddfeydd post i swyddfeydd trwyddedau a pheilon trydan. Roedd canolfan yr *MK* mewn ardal ffasiynol yn Johannesburg o'r enw Rivonia. Am 17 mis llwyddodd y Black Pimpernel (Nelson Mandela) i osgoi sylw'r heddlu. Serch hynny, doedd Mandela ddim yn medru osgoi'r heddlu am byth, ac yn 1963 cafodd e a saith o bobl eraill eu harestio yn Rivonia. Cafodd yr heddlu hyd i ddogfennau oedd yn cynnwys cynlluniau i ymosod ar adeiladau. Doedd dim amheuaeth fod Mandela'n euog. Roedd llawer yn disgwyl y byddai Mandela a'r arweinwyr eraill yn cael eu crogi gan y llywodraeth.

Ar ddiwedd achos llys yn Ne Affrica, mae hawl gan y diffynnydd i wneud araith. Mandela oedd yn amddiffyn aelodau'r *ANC* yn yr achos yn eu herbyn. Ar ddiwedd yr achos llys neu'r prawf, gwnaeth araith bedair awr a hanner o hyd yn esbonio pam roedd wedi gweithredu fel y gwnaeth. Cafodd Mandela, a rhai o'r lleill, eu dedfrydu i garchar am oes. Yn ei araith dywedodd:

> Rydw i wedi aberthu fy mywyd i frwydr pobl Affrica. Rydw i wedi ymladd yn erbyn rheolaeth pobl wyn, ac rydw i wedi ymladd yn erbyn rheolaeth pobl ddu. Rwy'n credu mewn cymdeithas ddemocrataidd a rhydd lle mae pob person yn gallu byw gyda'i gilydd mewn harmoni, a derbyn cyfle cyfartal. Mae'n rhywbeth rwy'n gobeithio byw i ymladd drosto. Ond, os oes rhaid, mae'n rhywbeth rwy'n fodlon marw drosto.

Roedd yr araith yn adleisio datganiad wnaeth yn 1961 pan ddywedodd:

**Y frwydr yw fy mywyd.**

**Y *PAC***

Sefydlwyd y *PAC* gan rai o gyn-aelodau'r *ANC* nad oedd yn cytuno â rhai o bolisïau'r *ANC.* Roedden nhw'n credu nad oedd yr *ANC* yn ddigon radical. Roedden nhw'n credu hefyd eu bod yn cyd¬weithio gormod â phobl wyn, a'u bod o dan ddylanwad Comiwnyddol. Arweinydd y *PAC* ar y dechrau oedd Robert Sobukwe.

Rydyn ni eisoes wedi gweld mai'r *PAC* mewn gwirionedd drefnodd yr ymgyrchoedd arweiniodd at gyflafan Sharpeville. Pan gafodd y *PAC* ei wahardd gan y llywodraeth yn 1960, aeth ati i sefydlu grŵp terfysg o'r enw Poqo.

Llwyddodd yr heddlu i arestio arweinwyr y *PAC* hefyd, a chafodd y rhain eu dedfrydu i garchar. Mae'n bwysig cofio nad oedd pawb oedd yn ymgyrchu yn erbyn apartheid yn gwneud hynny o fewn yr *ANC* – bod rhai'n ymgyrchu o fewn y *PAC.*

Cwestiwn allweddol

Beth oedd prif nodweddion y drafodaeth ryngwladol a'r gwrthwynebiad i apartheid gan bobl y tu allan i Dde Affrica?

## Gwrthwynebiad rhyngwladol i apartheid

**Gwledydd y Gymanwlad Brydeinig**

Roedd y 1950au a'r 1960au yn gyfnod o newid mawr i nifer o wledydd yn Affrica. Erbyn 1970, roedd y rhan fwyaf o wledydd Affrica wedi sicrhau annibyniaeth oddi ar y gwledydd Ewropeaidd oedd yn arfer eu rheoli. Dro ar ôl tro daeth pobl ddu i reoli gwledydd yn Affrica. Dechreuodd y newid yn y 1950au, ac erbyn 1970 ychydig o wledydd yn unig oedd yn dal o dan reolaeth pobl wyn.

Yn 1960, aeth Prif Weinidog Prydain, Harold Macmillan, ar daith o gwmpas cyfandir Affrica. Gorffennodd ei daith yn Cape Town ac yno, o flaen llywodraeth wyn De Affrica, gwnaeth araith enwog iawn. Ynddi dywedodd:

> “Mae corwynt o newid yn teithio'r cyfandir hwn, ac mae'r twf mewn ymwybyddiaeth genedlaethol yn ffaith wleidyddol, p'un ai ydym yn ei hoffi ai peidio . . .”

Yn 1960, roedd De Affrica yn dal yn un o wledydd y Gymanwlad Brydeinig (gwledydd a fu gynt yn rhan o'r Ymerodraeth Brydeinig). Er bod y Prif Weinidog Hendrik Verwoerd eisiau aros yn y Gymanwlad, yn 1961 cafodd refferendwm ei gynnal yn Ne Affrica. Penderfynodd pleidleiswyr gwyn De Affrica adael y Gymanwlad. Wedi hyn, daeth De Affrica yn Weriniaeth gydag Arlywydd, a daeth yn gwbl annibynnol ar Brydain. Er nad oedd Verwoerd eisiau i hyn ddigwydd, roedd wedi cael ei feirniadu gymaint fel y bu'n rhaid iddo yn y diwedd dynnu ei wlad o'r Gymanwlad.

**Chwaraeon**

Mewn gwledydd fel Prydain, roedd mudiadau gwrth-apartheid yn rhoi pwysau ar y llywodraeth. Roedden nhw am i'r llywodraeth gynnal sancsiynau economaidd a boicotiau chwaraeon yn erbyn De Affrica. Yn 1966, roedd Verwoerd wedi gwrthod gadael i Maoris oedd yn chwarae rygbi i dîm Seland Newydd ddod i'r wlad. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, ni chafodd cricedwr lliw o Dde Affrica oedd yn byw ym Mhrydain, Basil D'Oliveira, ganiatâd i fynd ar daith i Dde Affrica gyda thîm criced Lloegr. Roedd hynny er gwaetha'r ffaith ei fod yn gricedwr o fri oedd yn haeddu cael ei gynnwys yn y tîm. Teimlai pobl ei fod wedi cael ei ollwng o'r tîm oherwydd lliw ei groen. Byddai De Affrica wedi gwrthod caniatâd iddo chwarae a byddai hynny wedi arwain at ddrwgdeimlad. Roedd hi'n haws peidio â'i gynnwys.

Roedd pobl wyn De Affrica yn hoff iawn o chwaraeon, yn enwedig rygbi a chriced. Penderfynodd nifer o wledydd, felly, weithredu yn erbyn llywodraeth De Affrica drwy beidio â threfnu teithiau chwaraeon i'r wlad honno. Y bwriad oedd ceisio ynysu De Affrica. Dyma rai o'r prif foicotiau:

| | |
|---|---|
| 1959 | Tîm criced India'r Gorllewin yn gwrthod mynd ar daith i Dde Affrica |
| 1964 | De Affrica yn cael ei gwahardd o'r Gemau Olympaidd |
| 1969 | Protestiadau yn erbyn taith y Springbok i Brydain |
| 1970 | Clwb Criced Marylebone (*MCC: Marylebone Cricket Club*) yn canslo taith tîm criced De Affrica i Brydain |
| 1977 | Cytundeb Gleneagles: gwledydd y Gymanwlad yn gwahardd cysylltiadau chwaraeon o unrhyw fath â De Affrica. |

Er i'r penderfyniadau hyn frifo pobl wyn De Affrica yn fawr iawn, doedden nhw ddim yn ddigon i newid pethau yn y wlad ei hun. Roedd arwahanu yn dal i ddigwydd yn Ne Affrica ym myd chwaraeon, fel ym mhob maes arall.



**Y Cenhedloedd Unedig**

Mudiad rhyngwladol yw'r Cenhedloedd Unedig (CU) gafodd ei sefydlu ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Ei nod yw ceisio cael gwell dealltwriaeth rhwng gwledydd, atal rhyfeloedd, gweithio yn erbyn newyn, tlodi ac afiechyd, a cheisio sicrhau hawliau dynol i bobl ar hyd a lled y byd. Roedd Siarter y Cenhedloedd Unedig yn nodi ei fod yn fudiad oedd yn bodoli er mwyn sicrhau bod:

> “. . . gwledydd ar draws y byd yn annog parch at hawliau dynol, a rhyddid i bob unigolyn.”



Rhwng 1946 ac 1980, pasiodd y Cenhedloedd Unedig 158 o benderfyniadau yn ymwneud â De Affrica. Roedd De Affrica yn un o'r pynciau gafodd ei drafod yng nghyfarfod cyntaf y CU yn 1946. Ar sawl achlysur, condemniodd y CU apartheid, fel digwyddodd yn 1960 ar ôl cyflafan Sharpeville.

Serch hynny, un o'r 'arfau' oedd yn cael ei defnyddio gan y CU i wrthwynebu llywodraethau fel un De Affrica oedd sancsiynau economaidd. Ystyr hyn oedd bod y CU yn galw ar wledydd oedd yn aelodau o'r mudiad i wrthod masnachu â De Affrica. Roedden nhw'n gobeithio gorfodi'r llywodraeth yno i newid ei meddwl.

Roedd rhai gwledydd oedd yn aelodau o'r CU yn awyddus i weld sancsiynau yn erbyn De Affrica; roedd eraill yn erbyn hyn. Wnaeth Prydain ddim cefnogi sancsiynau economaidd yn erbyn De Affrica tan 1964, pan gytunodd llywodraeth Prydain i roi'r gorau i werthu arfau i'r wlad.

Yn anffodus i'r gwledydd hynny oedd yn dadlau dros gyflwyno sancsiynau yn erbyn De Affrica, roedd economi De Affrica yn un cryf iawn. De Affrica oedd y wlad gyfoethocaf yn ne Cyfandir Affrica i gyd, ac roedd yn wlad hunangynhaliol, fwy neu lai. Roedd economi gwledydd eraill cyfagos yn dibynnu'n drwm ar economi De Affrica – roedd angen nwyddau a masnach De Affrica ar wledydd yr ardal i gyd. Roedd hi'n anodd perswadio gwledydd tlawd y cyfandir i roi'r gorau i fasnachu â De Affrica.

Roedd gwledydd fel Prydain ac UDA hefyd yn dal yn awyddus i fasnachu â De Affrica. Pan gynigiodd y CU eu bod yn cyflwyno sancsiynau ar nwyddau i'r wlad, cafodd hyn ei wrthod gan UDA a Phrydain. Yn 1971, roedd 70% o'r arian tramor oedd yn cael ei fuddsoddi yn Ne Affrica yn dod o Brydain. Roedd cwmnïau Prydain yn awyddus i barhau i fuddsoddi yn y wlad oherwydd yr elw mawr y gallen nhw ei wneud o'r ffaith fod cyflogau mor isel yn Ne Affrica.

Un mudiad wnaeth ymdrech fawr i weld sancsiynau economaidd yn cael eu cyflwyno yn erbyn De Affrica oedd y Mudiad Undod Affricanaidd (OAU: Organisation of African Unity). Grŵp o wledydd yn Affrica oedd yn cael eu harwain gan bobl ddu oedd y rhain. Roedden nhw'n ceisio rhoi pwysau ar y CU i gyflwyno sancsiynau yn erbyn llywodraeth De Affrica. Daethon nhw at ei gilydd yn 1969 ym mhrifddinas Zambia (Lusaka), a phasio Maniffesto Lusaka. Serch hynny, methiant oedd ymdrechion gwledydd i ddefnyddio'r CU i gyflwyno sancsiynau yn erbyn De Affrica. Protestiodd y CU yn erbyn apartheid, ond ni lwyddodd i newid meddyliau llywodraeth De Affrica, na llwyddo i berswadio aelodau'r mudiad i gyflwyno sancsiynau economaidd.

Roedd yr ymdrech i gael sancsiynau economaidd wedi methu. Pam?

- Roedd economi De Affrica yn rhy gryf. Gallai llywodraeth wyn De Affrica anwybyddu gweddill y byd. Roedd pobl fusnes ar hyd a lled y byd eisiau buddsoddi arian yn Ne Affrica. Prydain oedd y wlad oedd yn buddsoddi fwyaf yno, wedyn America, Dwyrain yr Almaen a Japan
- Roedd gan Dde Affrica adnoddau prin a gwerthfawr. Roedd ganddi'r pedwar metel a restrir isod:

> Does dim modd gwneud heb rai metelau pwysig. Mae'n rhaid i wledydd diwydiannol eu cael. Y pedwar pwysicaf yw cromiwm, cobalt, manganîs a metelau platinwm. Allwch chi ddim adeiladu peiriant jet na char hebddyn nhw, rhedeg trên, adeiladu purfa olew na chynhyrchu trydan. Allwch chi ddim prosesu bwyd, rhedeg ysbyty neu fwyty glân. Allwch chi ddim adeiladu cyfrifiadur . . .
>
> (*South Africa and the Western World*, Arnt Spondau, 1984)

- Roedd economi gwledydd eraill yn yr ardal yn dibynnu gormod ar Dde Affrica. Roedd gweithwyr o wledydd cyfagos yn gweithio yn Ne Affrica, a'r gwledydd hynny yn defnyddio porthladdoedd De Affrica. Roedd gan Dde Affrica'r fyddin a'r llu awyr gorau a mwyaf pwerus yn yr ardal
- Roedd Rwsia ac America yn ymladd Rhyfel Oer, ac yn awyddus i barhau â'u dylanwad yn Ne Affrica. Roedd America a Phrydain yn credu bod angen De Affrica arnyn nhw i ymladd yn erbyn Comiwnyddiaeth. Yn ogystal â bod yn wlad gyfoethog, roedd yn wlad bwysig o safbwynt safle strategol.

# Diwedd apartheid

Cwestiwn allweddol

Sut a pham daeth apartheid i ben yn Ne Affrica?

**P. W. Botha a'r 'realaeth newydd'**

Yn 1978, daeth P. W. Botha yn Brif Weinidog yn lle John Vorster. Roedd Botha yn sylweddoli nad oedd apartheid yn gweithio. Sylweddolai hefyd fod yn rhaid cael newid yn Ne Affrica, a bod yn rhaid anwybyddu rhai o'r deddfau apartheid os oedd y dyn gwyn i aros mewn grym. Er enghraifft, roedd angen gweithwyr du yn y trefi oherwydd mai yn y trefi roedd y prif ddiwydiannau, ond eto roedd deddfau apartheid yn atal pobl ddu rhag symud i'r trefi i fyw. Yn yr un modd, roedd angen gweithwyr du medrus ar ddiwydiannau De Affrica, ond eto roedd deddfau addysg apartheid yn atal plant du rhag cael addysg dda a datblygu sgiliau i ddod yn weithwyr medrus. Yn 1978, cafodd rhai myfyrwyr du'r hawl i fynychu Prifysgol Afrikaner yn Stellenbosch.



Datblygodd llywodraeth Botha, felly, bolisi newydd tuag at bobl ddu. Ar yr un llaw roedd am ddefnyddio mwy o rym i geisio rheoli trais gan bobl ddu. Ar y llaw arall roedd am weld apartheid yn newid yn araf. Roedd am weld y llywodraeth yn datblygu polisi mwy 'realistig' tuag at apartheid. Serch hynny doedd gan Botha ddim bwriad rhoi grym i'r bobl ddu na gweld apartheid yn dod i ben. Roedd yn erbyn y syniad o roi pleidlais i bob person.



**Diwygiadau Botha**

Yn 1979, daeth yn gyfreithlon dod yn aelod o undeb llafur. Roedd Botha yn gobeithio y byddai'r llywodraeth yn medru rheoli'r undebau llafur, ond roedd yn anghywir. Yn 1984, galwodd Undeb Cenedlaethol y Glowyr streic fawr yn Ne Affrica i hawlio mwy o gyflog i'r aelodau.

Dechreuodd y llywodraeth hefyd ddiwygio rhai elfennau eraill o apartheid:

- Daeth rhai lleoedd cyhoeddus, fel sinemâu, yn agored i bawb
- Yn 1981 daeth traethau yn Cape Province yn rhai cymysg
- Yn 1985 cafodd pobl ddu'r hawl i fynd i rai o'r un gwestai a thai bwyta â phobl wyn.

Serch hynny, roedd y rhan fwyaf o gyfleusterau cyhoeddus yn dal yn rhai lle roedd pobl ddu a gwyn yn cael eu gwahanu. Roedd y rhain yn cynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, pyllau nofio a thoiledau cyhoeddus.

Daeth newid gwleidyddol i Dde Affrica hefyd. Yn 1983, cafodd y wlad GYFANSODDIAD newydd, a rhoddwyd pleidlais i'r Indiaid a'r bobl liw. Chafodd pobl ddu ddim pleidlais serch hynny, ac roedd yn rhaid i'r grwpiau eraill gyfarfod ar wahân i'r bobl wyn. Gan y bobl wyn roedd y pŵer i basio deddfau pwysig. Roedd y cyfansoddiad newydd yn sicrhau bod y grym yn aros yn nwylo'r bobl wyn. Dim ond 20% o'r Indiaid a'r bobl liw yn Ne Affrica bleidleisiodd yn yr etholiadau cyntaf yn 1984.

Yn 1985, cafodd pobl ddu a gwyn yr hawl i briodi ei gilydd, ond roedd deddfau apartheid yn dal i wahardd pobl ddu rhag byw mewn ardaloedd gwyn. Erbyn canol yr 1980au, serch hynny, roedd hi'n anodd iawn i'r llywodraeth gynnal Deddf Ardaloedd Grwpiau, 1950 oedd yn dweud yn union lle roedd pawb i fod i fyw. Roedd cymaint o bobl ddu wedi symud i fyw i'r ardaloedd gwyn, roedd hi'n amhosibl i'r llywodraeth wneud unrhyw beth ynglŷn ag e

## Mwy o bwysau am newid

**Y trais yn cynyddu eto**

Yn ystod yr 1980au, roedd newidiadau y tu mewn a'r tu allan i Dde Affrica oedd yn golygu bod mwy a mwy o wrthwynebiad i apartheid. Yn 1979 daeth rheolaeth pobl wyn i ben yn Rhodesia (gwlad sy'n ffinio â De Affrica), a'r flwyddyn ganlynol cafodd y wlad ei hailenwi yn Zimbabwe. Roedd hyn yn golygu bod modd i'r *ANC* ddefnyddio'r wlad fel canolfan ar gyfer ei gweithgareddau. Yn 1981 gwnaeth yr *ANC* dros 80 o ymosodiadau arfog yn Ne Affrica. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain o Zimbabwe. Targedau'r ymosodiadau hyn oedd adeiladau'r llywodraeth yn Ne Affrica.

Roedd eithafwyr gwyn yn credu y dylai'r llywodraeth fod yn fwy cadarn yn erbyn y protestwyr. Roedd pobl wyn fwy cymedrol yn dadlau bod angen mwy o hawliau ar y bobl ddu.

Yn ystod yr 1980au, defnyddiodd Botha rym cynyddol yn erbyn mudiadau pobl ddu oedd yn protestio yn Ne Affrica. Aeth mor bell ag anfon rhai o ysbiwyr y llywodraeth i wledydd eraill i geisio lladd arweinwyr yr *ANC*. Cafodd un o swyddogion yr *ANC* ei ladd ym Mharis, a chafodd pencadlys yr *ANC* yn Llundain ei fomio.

Penderfynodd yr *ANC* fabwysiadu tacteg newydd. Yn 1985, dywedodd Oliver Tambo fod angen i bobl ddu wneud De Affrica yn wlad amhosibl ei llywodraethu. Dywedodd hefyd y dylai pobl wyn De Affrica oedd yn cydymdeimlo ag achos y bobl ddu brotestio mwy yn erbyn y llywodraeth a'r drefn apartheid. Daeth trais, oedd yn rhywbeth cyffredin iawn yn y treflannau, yn ddigwyddiad bob dydd. Rhwng Medi 1984 ac Ionawr 1986 lladdodd heddlu a byddin De Affrica 628 o bobl ddu. Yn yr un cyfnod cafodd 327 o bobl ddu eraill eu lladd gan bobl ddu – yn aml am gydweithio â'r llywodraeth.

**Crossroads, 1985**

Un o'r mannau lle roedd y terfysgoedd gwaethaf yn y cyfnod hwn oedd yn Crossroads, sef tref anghyfreithlon o ryw 100,000 o bobl ddu i'r gogledd o Cape Town. Dro ar ôl tro, roedd y llywodraeth wedi dinistrio 'cartrefi' y bobl ddu a'u gorfodi i symud yn ôl i'r Bantustans mewn ardaloedd gwledig pell. Dro ar ôl tro, roedd y bobl ddu wedi dychwelyd i Crossroads er mwyn medru byw yn agos i'w gwaith.

Yn Chwefror 1985, clywodd trigolion Crossroads fod yr heddlu a'r fyddin yn mynd i gyrraedd a'u symud o'u cartrefi unwaith eto. Aethon nhw ati, felly, i godi rhwystrau – baricedau – o goncrid a theiars ceir. Dechreuodd bechgyn du daflu cerrig at yr heddlu, ac ymatebodd yr heddlu gyda bwledi rwber a nwy dagrau, a hyd yn oed drwy saethu at y terfysgwyr du. Parhaodd yr ymladd yn Crossroads am dros flwyddyn, a bu farw tua 1,000 o bobl ddu yn ystod y cyfnod.

Roedd diwygiadau eraill yn 1986 hefyd. Penderfynodd Botha nad oedd y deddfau trwydded yn gweithio a daeth y rhain i ben. Ond doedd yr holl newidiadau yma ddim yn datrys problemau De Affrica. Problem fawr Botha oedd ei fod yn y canol rhwng dau grŵp, ac yn plesio neb.

- Ar yr un llaw, roedd mudiadau du oedd am weld apartheid yn dod i ben yn gyfan gwbl. Roedd mwy a mwy o drais yn y treflannau du, gyda phobl ddu yn protestio dros fwy o hawliau . . .
- Ar y llaw arall, roedd pobl wyn eithafol yn protestio gan eu bod yn credu bod Botha'n rhoi gormod o hawliau i bobl ddu. Ffurfiodd grŵp asgell dde gwyn blaid newydd, sef y Blaid Geidwadol. Roedd yr aelodau'n arfer perthyn i'r Blaid Genedlaethol. Arweinydd y blaid hon oedd Eugène Terre'Blanche, ac roedd aelodau ei blaid e am weld mwy, nid llai, o apartheid.



Penderfynodd Botha, felly, newid ei dactegau, a throi am gymorth at Nelson Mandela. Roedd e'n gobeithio y byddai Mandela yn fodlon siarad yn erbyn trais, ac yn fodlon rhoi cefnogaeth iddo e ac i'w ddiwygiadau. Roedd ateb Mandela yn glir:

> “Gofynnodd yr Athro Dash i mi a oeddwn i'n [cefnogi] diwygiadau Botha a'i fwriad i gael gwared ar y deddfau oedd yn gwahardd priodasau cymysg, a rhai [deddfau] apartheid eraill. Fy ateb oedd hyn: 'Dim ond newidiadau bach yw'r rhain. Nid yw'n fwriad gennyf briodi menyw wyn, na nofio mewn pwll nofio gwyn. Hawliau a chydraddoldeb gwleidyddol sydd eu hangen arnon ni.'”


(*Long Walk to Freedom*, Nelson Mandela, 1994)

Yn Ionawr 1985, cynigiodd Botha ryddhau Nelson Mandela ar yr amod ei fod yn ymwrthod â'r syniad o ddefnyddio trais. Gwrthododd Mandela'r cynnig.

**Desmond Tutu**

Un arweinydd du a ddaeth yn amlwg yn ystod yr 1980au oedd Desmond Tutu. Yn 1978, cafodd ei ethol yn ysgrifennydd cyffredinol Cyngor Eglwysi De Affrica. Roedd yn ffyrnig yn erbyn apartheid ac yn siarad o blaid hawliau pobl ddu De Affrica.

Yn 1984, ef oedd enillydd Gwobr Heddwch Nobel. Yna, yn 1986, cafodd ei ethol yn archesgob Cape Town – y person du cyntaf i arwain yr eglwys Anglicanaidd yno. Gan ei fod yn berson llawn carisma, roedd yn barod i ymosod ar lywodraeth De Affrica yn gyson. Serch hynny, roedd hi'n anodd iawn i'r llywodraeth ei garcharu.



**Colli rheolaeth**

Erbyn haf 1985, roedd y llywodraeth fel petai'n colli rheolaeth ar ardaloedd fel Crossroads. Yn y cyfnod hwn, datblygodd trais rhwng pobl ddu a'i gilydd. Os oedd person wedi bod yn cydweithio â'r heddlu, yn aelod o'r heddlu du, neu'n helpu'r llywodraeth i reoli mewn unrhyw ffordd, y gosb answyddogol oedd arfer o'r enw necklacing. Y drefn oedd rhoi teiar car o gwmpas y person, ei orchuddio â phetrol a'i losgi. Roedd ymladd hefyd rhwng gwahanol lwythau du, yn enwedig yr ANC a Phlaid Rhyddid Inkatha o dan arweiniad y Pennaeth Buthelezi oedd yn cynrychioli'r Zulus.

Ym Mehefin 1986, cyflwynodd Botha stad o argyfwng yn Ne Affrica oedd yn golygu bod hawl gan yr heddlu i arestio a charcharu pobl heb achos llys. Roedd yr heddlu yn defnyddio mwy o rym a thrais yn erbyn pobl ddu yn y cyfnod hwn.

**Pwysau economaidd**

Yn dilyn pwysau gan fudiadau gwrth-apartheid, cynyddodd y galw eto am gyflwyno sancsiynau economaidd yn erbyn De Affrica. Yn 1985, gwrthododd un o fanciau mawr America roi benthyg arian i lywodraeth De Affrica hyd nes iddi gael gwared ar apartheid. Dilynodd nifer o fanciau mawr eraill. Yn dilyn penderfyniad y Chase Manhattan Bank of New York i dynnu allan o'r wlad, gostyngodd gwerth y rand 35% mewn cyfnod byr, a bu'n rhaid cau Marchnad Stoc De Affrica am bedwar diwrnod. Dros y ddwy flynedd nesaf, tynnodd nifer o gwmnïau mawr allan o Dde Affrica, gan gynnwys cwmni Esso a Banc Barclays. Yn 1986, pasiodd llywodraeth America y Ddeddf Gwrth-apartheid Gynhwysfawr (*CAAA: Comprehensive Anti-Apartheid Act*) a oedd yn annog cwmnïau i wrthod masnachu â De Affrica. Yn yr un flwyddyn pasiodd yr UDA a'r Gymuned Ewropeaidd bolisïau oedd yn cynyddu'r sancsiynau yn erbyn De Affrica.

**Yr ysgolion**

Parhaodd ysgolion De Affrica i fod yn ganolfannau protestio yn erbyn y llywodraeth a'r drefn apartheid. Gwrthododd nifer o blant fynd i'r ysgol ac mewn nifer o achosion bu'n rhaid cau'r ysgolion oherwydd y trais.

**Yr undebau llafur**

Roedd Undebau Llafur De Affrica yn barod iawn i alw am streic os oedd angen un. Roedden nhw'n streicio'n gyson. Yn 1974, dim ond 14, 000 o ddiwrnodau gwaith a gafodd eu colli oherwydd streicio; yn 1982, collwyd dros 365, 000. Trefnodd Undeb Cenedlaethol y Glowyr, o dan arweiniad Cyril Ramaphosa, streiciau mawr yn 1985 ac 1987.

**Mudiadau pobl ddu**

Gwelwyd twf eto yng ngweithgareddau mudiadau pobl ddu yn Ne Affrica yn ystod yr 1980au. Y mudiad a gymerodd le Ymwybyddiaeth Ddu oedd Mudiad Pobl Azania (*AZAPO: Azanian People's Organisation*). Roedden nhw'n credu y dylai pobl ddu greu chwyldro yn Affrica (Azania) i gael gwared ar reolaeth y bobl wyn. Er bod yr *ANC* wedi cael ei wahardd, roedd yn dal i ymgyrchu yn y dirgel yn erbyn apartheid, gan brotestio drwy ddulliau heddychlon a a thrwy ddefnyddio trais. Er mwyn i arweinwyr du allu siarad yn agored yn erbyn apartheid, fe ymunodd llawer â'r Ffrynt Democrataidd Unedig (*UDF: United Democratic Front*). Roedd y mudiad hwn yn cynnwys eglwyswyr fel Desmond Tutu a Dr Allan Boesak, menywod fel Winnie Mandela ac Albertina Sisulu, ac aelodau blaenllaw o'r *ANC*.

Roedd hi'n amlwg bod newid ar y gweill yn Ne Affrica.

## F. W. de Klerk's Changes, 1989–1991

Pan gafodd P. W. Botha strôc yn Ionawr 1989, roedd hi'n amlwg na allai barhau i reoli'r wlad. Y dyn ddaeth i gymryd ei le oedd F. W. de Klerk. Roedd de Klerk yn dod o deulu gwleidyddol ceidwadol iawn, ac roedd disgwyl y byddai'n parhau i weithredu polisi apartheid llym.

Pan wnaeth de Klerk ei araith wleidyddol fawr gyntaf fel Arlywydd, cafodd llawer iawn o bobl eu synnu. Yn lle bod yn llym, dywedodd fod angen i'r wlad newid cyfeiriad yn llwyr. Yn yr Etholiad Cyffredinol ym Medi 1989, addawodd de Klerk y byddai'n newid apartheid. Rhai diwrnodau'n ddiweddarach, roedd gorymdaith wrth-apartheid yn Cape Town, ac ni wnaeth de Klerk unrhyw ymdrech i'w gwahardd.

Aeth de Klerk ati i gyflwyno newidiadau eraill. Yn yr hydref cafodd Walter Sisulu ei ryddhau o'r carchar, a dechreuodd de Klerk gael gwared ar apartheid. Agorwyd traethau i bawb, a chafwyd datganiad gan y llywodraeth ei bod am ddileu'r Ddeddf Cyfleusterau ar Wahân, 1953 oedd yn cynnig rhai cyfleusterau i bobl ddu, a rhai gwahanol i bobl wyn.

Yn Rhagfyr 1989, fe wnaeth Mandela a de Klerk gyfarfod. Er bod Mandela yn dal yn y carchar, gofynnodd i de Klerk godi'r gwaharddiad ar yr *ANC*. Cytunodd i hyn. Yn Chwefror 1990, dywedodd de Klerk wrth Senedd De Affrica:

- ei fod am ddod â'r gwaharddiad ar yr *ANC* a'r *PAC*, a 30 o fudiadau eraill, i ben; o hynny ymlaen, fyddai hi ddim yn erbyn y gyfraith i fod yn aelod o'r *ANC*
- y byddai'n rhyddhau carcharorion gwleidyddol oedd heb gyflawni troseddau treisiol
- y byddai hawl gan bapurau newydd i adrodd am ddigwyddiadau, heb sensoriaeth
- y byddai'r gosb eithaf yn dod i ben
- y byddai Mandela yn cael ei ryddhau'n ddiamod.

Dywedodd de Klerk wrth y Senedd fod 'amser trafod wedi cyrraedd'. Er bod ei newidiadau wedi cael eu derbyn, roedd rhai gwleidyddion gwyn yn ei fwio wrth iddo sôn am ryddhau Mandela a thrafod â'r ANC.

**Rhyddhau Nelson Mandela**

Ar 11 Chwefror 1990, cafodd Nelson Mandela ei ryddhau o garchar Victor Verster, Cape Town. Roedd yn ddyn rhydd am y tro cyntaf ers 27 o flynyddoedd. Roedd torf fawr wedi ymgasglu y tu allan i'r carchar a miliynau o bobl yn gwylio'r digwyddiad ar y teledu.

## Trais, *CODESA*, etholiadau rhydd a diwedd apartheid, 1991–1994

Yn y cyfnod rhwng 1991 ac 1994, daeth rheolaeth y bobl wyn yn Ne Affrica i ben yn raddol. Digwyddodd hyn wrth i de Klerk gyflwyno mwy a mwy o newidiadau – newidiadau wnaeth arwain yn y pen draw at etholiadau rhydd yn y wlad yn Ebrill 1994.

Yn Chwefror 1991, daeth datganiad oddi wrth F. W. de Klerk ei fod am gael gwared ar y cyfreithiau apartheid oedd ar ôl. Yn Rhagfyr 1991, mewn cynhadledd i drafod dyfodol De Affrica, cafodd cyfarfod ei drefnu rhwng arweinwyr yr *ANC* ac aelodau'r llywodraeth. Roedd gan y gynhadledd hon – y Confensiwn ar gyfer De Affrica Ddemocrataidd (*CODESA: Convention for a Democratic South Africa*) – nifer o broblemau i'w datrys. Rôl y confensiwn oedd trefnu cyfansoddiad newydd i'r wlad, un fyddai'n dderbyniol i'r bobl wyn a'r bobl ddu (a grwpiau eraill fel y bobl liw a'r Indiaid).

Ond roedd gan y rhai oedd yn trafod nifer o wrthwynebwyr. Ar sawl achlysur bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r trafod oherwydd y trais cynyddol oedd yn digwydd yn Ne Affrica.

**Y gwrthdaro**

- **Pobl ddu yn erbyn pobl ddu**

Roedd gwrthdaro rhwng cefnogwyr yr *ANC* a Phlaid Rhyddid Inkhatha. Doedd y bobl ddu ddim i gyd yn cefnogi Mandela a'r *ANC*. Roedd Inkhatha, sef Plaid y Zulus yn Ne Affrica, yn erbyn gweld Mandela a'r *ANC* yn dod i reoli. Roedd llawer o arweinwyr y blaid hon, gan gynnwys y Pennaeth Buthelezi, wedi cyd¬weithio â'r llywodraeth wyn o dan y drefn apartheid, ac yn ofni gweld yr *ANC* yn dod i reoli. Roedden nhw'n ofni colli'r hawliau roedden nhw wedi arfer eu mwynhau o dan y drefn apartheid.

Roedd gwrthdaro rhwng y *PAC* a'r *ANC*. Doedd y *PAC* ddim yn meddwl bod modd ymddiried yn llywodraeth wyn. Doedden nhw ddim yn credu y dylai pobl ddu fod yn trafod rhannu pŵer gyda'r bobl wyn. Penderfynodd y PAC beidio â chymryd rhan o gwbl yn y trafodaethau.

- **Eithafwyr gwyn yn erbyn y llywodraeth wyn**

Roedd grŵp o eithafwyr gwyn wedi mynd ati i ffurfio'r Mudiad Gwrthwynebu Afrikaner (*AWB: Afrikaner Weerstandsbeweging*) yn 1979. Ei fwriad oedd sicrhau bod y bobl wyn yn cadw rheolaeth dros Dde Affrica. Roedd y mudiad hwn yn hiliol, yn gwisgo lifrai (gwisg unffurf), yn cario baneri ac yn defnyddio sloganau hiliol. Roedd eu sloganau a'u baneri yn debyg iawn i rai mudiad Natsïaidd Hitler yn yr Almaen yn ystod y 1930au. Un o arweinwyr y mudiad hwn oedd Eugène Terre'Blanche. Roedd yr arweinwyr yn credu bod de Klerk yn cyfaddawdu gormod gyda Mandela a'r ANC, a bod angen defnyddio trais i atal y trafodaethau.



- **Yr heddlu gwyn**

Er bod yr heddlu i fod i gynnal cyfraith a threfn, a chefnogi'r llywodraeth, roedd rhai aelodau o'r heddlu yn cael eu cyhuddo o gynorthwyo i greu trais. Yn 1990, dywedodd Mandela fod grŵp o swyddogion heddlu – grŵp oedd yn cael ei alw'n Third Force – yn cynorthwyo cefnogwyr Inkatha yn eu hymosodiadau ar yr *ANC*. Daeth gwybodaeth i'r amlwg yn ddiweddarach oedd yn cefnogi'r hyn ddywedodd Mandela. Roedd aelodau o'r heddlu wedi bod yn cynorthwyo wrth hyfforddi carfanau ymosod (*hit squads*) y Zulus i ruthro ar gefnogwyr yr *ANC*.

**Sicrhau cefnogaeth**

Roedd de Klerk am sicrhau bod ganddo gefnogaeth y bobl wyn i'r hyn roedd yn ei wneud. Roedd hefyd am geisio tawelu'r *AWB* ac eithafwyr gwyn eraill. Ym Mawrth 1992, felly, cynhaliodd de Klerk refferendwm o bobl wyn De Affrica. Yn y refferendwm hwnnw, gofynnodd i'r bobl wyn a oedden nhw'n cefnogi'r broses o drafod â'r *ANC* a'r broses o newid De Affrica. Yn y refferendwm, dangosodd dros 70% o bobl wyn De Affrica eu cefnogaeth i F. W. de Klerk a'r broses o drafod â'r *ANC*. Yn dilyn y bleidlais dywedodd de Klerk:

> **“Heddiw, rydyn ni wedi cau'r llyfr ar apartheid. Mae'r bennod honno drosodd o'r diwedd.”**

Erbyn 1993 roedd yr ANC a'r llywodraeth wedi dod i gytundeb.

- Byddai etholiad cyffredinol yn cael ei gynnal ar 27 Ebrill 1994.
- Byddai pob person dros 18 oed yn Ne Affrica yn cael pleidlais.
- Byddai 400 o Aelodau Seneddol yn cael eu hethol.
- Byddai'r Aelodau Seneddol hyn yn dewis arlywydd

Ond, roedd hi'n amlwg hefyd fod de Klerk wedi cael ei ffordd i raddau, oherwydd:

- Byddai pob plaid oedd yn cael mwy nag 80 o seddi (Aelodau Seneddol) yn cael dirprwy arlywydd.
- Byddai pob plaid oedd yn cael dros 5% o'r bleidlais yn cael ei chynrychioli yn y llywodraeth
- Byddai'r ddau bwynt uchod (5 a 6) yn weithredol am bum mlynedd, i sicrhau bod y llywodraeth newydd yn uno, ac nid yn rhannu'r wlad.

Doedd pawb ddim yn hapus â'r drefn newydd, serch hynny. Gadawodd y Pennaeth Buthelezi y trafodaethau, gan deimlo ei fod wedi cael ei fradychu gan de Klerk a'r llywodraeth wyn. Roedd Buthelezi yn credu na ddylai ei ardal ef, sef KwaZulu Natal, fod yn rhan o'r De Affrica newydd, ac roedd eisiau gwlad hunanlywodraethol i'r Zulus.

Roedd eithafwyr gwyn hefyd yn anfodlon. Cafodd Chris Hani, un o arweinwyr blaenllaw yr ANC, ei saethu'n farw gan aelod o'r *AWB*. Ymosododd pobl wyn o'r AWB ar bobl ddu â grenadau tra oedden nhw'n addoli mewn capel, gan ladd deuddeg person.

**Etholiad cyffredinol Ebrill 1994**

Er gwaetha'r holl drais a'r protestio yn eu herbyn, llwyddwyd i gynnal etholiadau rhwng 26 a 29 Ebrill 1994. Am y tro cyntaf erioed, cafodd 16 miliwn o bobl ddu yr hawl i bleidleisio, a hynny'n arwain at olygfeydd rhyfeddol. Yn aml, cyn bwrw eu pleidlais, roedd pobl wedi ciwio yn dawel am ddau ddiwrnod. Roedd y papur pleidleisio yn cynnwys 19 plaid wahanol. Gan nad oedd hanner y bobl ddu yn medru darllen, rhoddwyd logo'r blaid, a llun ei harweinydd, ochr yn ochr ag enw'r ymgeisydd. Mewn ardaloedd gwledig, gwelwyd pobl yn cerdded dros 60 milltir i fanteisio ar yr hawl i bleidleisio am y tro cyntaf.

Dyma oedd canlyniad yr etholiadau democrataidd cyntaf yn Ne Affrica:

| | |
|---|---|
| Cyngres Genedlaethol Affrica (yr *ANC*) | 62% |
| Y Blaid Genedlaethol (de Klerk) | 20% |
| Plaid Rhyddid Inkhatha (y Pennaeth Buthelezi) | 10% |
| Eraill | 8% |

Daeth Mandela yn arlywydd, daeth de Klerk yn ddirprwy arlywydd, a chafodd y Pennaeth Buthelezi swydd yn y llywodraeth. Roedd y canlyniad i'w weld yn plesio pawb, oherwydd teimlai pawb eu bod wedi elwa o'r etholiad. Serch hynny, gadawodd y Pennaeth Buthelezi y llywodraeth ym Mai 1995.

Er bod y llywodraeth yn ymddangos yn unedig, doedd hi ddim mewn gwirionedd. Doedd Inkatha ddim eisiau chwarae rôl lawn yn nyfodol De Affrica, a doedd pobl wyn eithafol ddim chwaith. Roedd yn rhaid i Mandela geisio cadw cefnogaeth rhai o gefnogwyr Comiwnyddol yr ANC a oedd eisiau gweld cyfoeth yn cael ei ddosbarthu. Ar yr un pryd roedd yn rhaid iddo gynnal cefnogaeth pobl wyn gyfoethog.



Serch hynny, roedd rhai arwyddion gobeithiol. Roedd y rhan fwyaf o'r boblogaeth eisiau gweld y trais yn dod i ben. Roedden nhw eisiau gweld y llywodraeth newydd yn llwyddo. Roedd Mandela wedi ennill parch y rhan fwyaf o'r bobl ddu a'r bobl wyn.

Yn bennaf oll, roedd De Affrica yn wlad gyfoethog. Roedd angen y cyfoeth hwn i ddarparu tai newydd, gwell addysg a gwell gwasanaeth iechyd i'r boblogaeth. Roedd miliynau o bobl ddu dlawd yn disgwyl pethau mawr gan eu harweinydd newydd.

# De Affrica - Cydnabyddiaethau’r lluniau

1. Nelson Mandela- Eye Ubiquitous / Alamy
2. Map De Affrica - Pavalena/Shutterstock.com
3. Map Affrica - Pavalena/Shutterstock.com
4. J.B.M Hertzog- Wikimedia Commons
5. Hendrik Verwoerd -Keystone Pictures USA / Alamy
6. African Township - Photos 12 / Alamy
7. Steve Biko - Pictorial Press Ltd / Alamy
8. Oliver Tambo - REX/Brendan Beirne
9. Nelson ac Winnie Mandela - REX/Gallo Images
10. Pobl wedi’u hanafu ar y stryd - AFP/Getty Images
11. Sharpville - Pictorial Press Ltd / Alamy
12. Protest- Gwnaed pob ymdrech i ganfod deiliaid hawlfraint y llun hwn. Cysylltwch â ni os mai chi yw perchennog y llun hwn.
15. Gêm rygbi - REX/Colorsport
16. Baner Y Cenhedloedd Unedig – Dustan Po/Shutterstock.com
17. Pieter Botha - REX/Sipa Press
18. Cartŵn- © Zapiro
19. Eugene Terreblanche - REX/Times Newspapers
20. Desmond Tutu - REX/Richard Young
21. Baner De Affrica – Naypong/Shutterstock.com